# WILLIAMS, DAVID (1738 - 1816), llenor a phamffledydd gwleidyddol



**Enw:** David Williams
**Dyddiad geni:** 1738
**Dyddiad marw:** 1816
**Priod:** Mary Emilia Williams
**Plentyn:** Emilia Williams
**Rhiant:** William David
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** llenor a phamffledydd gwleidyddol
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
**Awdur:** David Williams

Ganwyd yn 1738 yn Waunwaelod (y Carpenters' Arms yn ddiweddarach), plwyf Eglwysilan, gerllaw Capel Watford, ar ochr heol (nid y briffordd) yn arwain o Gaerffili i Gaerdydd. William David (un o ddychweledigion Howel Harris), a aned yn Llwynybarcud, plwyf Llanharry, oedd ei dad. Cafodd ei addysg mewn ysgol a gedwid yn y gymdogaeth gan David Williams (1709 - 1784). Yn unol â dymuniad a wnaeth ei dad ar ei wely marw (1752) penderfynodd David Williams fyned i'r weinidogaeth Anghydffurfiol. O 1753 hyd 1757 bu'n efrydydd yn academi Caerfyrddin. Yn y cyfnod hwn yr oedd yr academi yn nodedig am anuniongrededd, a dylanwadodd hyn, yn ddiamau, ar syniadau Williams. Bu'n gweinidogaethu yn olynol yn Frome (1759-61), Exeter (1761-9), a Highgate, Middlesex (1769-73). Gadawodd y weinidogaeth, oherwydd fod y cyflog a dderbyniai yn annigonol iddo dreulio'r math o fywyd a ewyllysiai ef.

Yr oedd eisoes wedi sgrifennu ar gwestiwn gwella gwasanaethau crefyddol ac ar y chwaraedy pan agorodd, yn 1773, ysgol breswyl gostus yn Lawrence Street, Chelsea. Yr oedd bellach yn briod; enw ei wraig oedd Mary Emilia. Ar 9 Rhagfyr 1774 ganwyd merch iddynt, a enwyd yn Emilia, ac ar yr ugeinfed o'r un mis bu farw y wraig. Bedyddiwyd yr eneth ar 12 Chwefror 1775 eithr ni chlywir mwy amdani; y mae'n bosibl iddi farw pan oedd yn blentyn. Pan gollodd ei wraig rhoes Williams yr ysgol i fyny. Yr oedd eisoes, fodd bynnag, wedi sgrifennu ei *Treatise on Education*, 1774.

Yr oedd ysgrifeniadau Williams wedi tynnu sylw Benjamin Franklin, a gafodd loches ' from a political storm ' ar un achlysur yn nh  Williams yn Chelsea. Ffurfiodd y ddau y ' Thirteen Club,' yn cynnwys nifer o ddeistiaid, ac ysgrifennodd Williams iddynt ei lyfr, *A Liturgy on the Universal Principles of Religion and Morality*, 1776. Cafodd y gwaith hwn ei ganmol gan Frederick II, Voltaire, a Rousseau. Pan ymddangosodd y llyfr sylfaenodd Williams ' cult of nature ' mewn capel yn Margaret Street, Cavendish Square. Eithr yr oedd Franklin wedi dychwelyd i America erbyn hyn, a throes llawer o'r addolwyr yn anffyddwyr; a bu'r arbrawf yn fethiant.

Ysgrifennodd Williams *Letters on Political Liberty*, 1782, i amddiffyn y trefedigaethwyr yn America; yn hwn yr oedd yn cefnogi program o ddiwygiad gwleidyddol a oedd yn radicalaidd iawn. Cyfieithwyd y llythyrau hyn yn Ffrangeg gan Brissot a daeth yr awdur yn enwog yn Ffrainc o'u plegid. Ym mis Hydref 1792 gwnaethpwyd ef yn ddinesydd Ffrengig, a gwahoddwyd

ef i Baris i gynorthwyo yn nhynnu allan gynllun cyfansoddiad Girondaidd. Arhosodd ym Mharis o ddechrau mis Rhagfyr 1792 hyd ddechrau mis Chwefror 1793, a phan ddychwelodd gofynnodd Le Brun, gweinidog tramor Ffrainc, iddo gyflwyno cynigiadau heddwch.

Cynhaliai Williams ei hun trwy gymryd disgyblion preifat (amryw ohonynt yn w r a ddymunai chwarae rhan mewn bywyd cyhoeddus ond na chawsent ond ychydig addysg), trwy draddodi darlithiau cyhoeddus, a thrwy wneuthur gwaith llenyddol am dâl. Ei waith mwyaf ei faint oedd ei *History of Monmouthshire*, 1796. Ymwelodd a Ffrainc ar ôl heddwch Amiens, yn ôl pob tebyg ar gais Llywodraeth Prydain, a chynhyrchodd adroddiad (mewn llawysgrif) ar gyflwr syniadaeth y cyhoedd yngl n â Bonaparte.

Prif hawl Williams i enwogrwydd ydyw iddo sefydlu y Royal Literary Fund i gynorthwyo awduron anghennus; ar 18 Mai 1790 y cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y gronfa. Treuliodd ei flynyddoedd olaf yng nghartref y gronfa hon yn 36 Gerrard Square, Soho, ac yno y bu farw ar 29 Mehefin 1816.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus David Williams**, (1900 - 1978)

## Ffynonellau

Y mae cofiant llawn i David Williams yn y *Oxford Dictionary of National Biography* wedi ei ysgrifennu gan Alexander Gordon yno rhestrir y rhan fwyaf o lyfrau Williams (cyhoeddodd tua 26)

Defnyddiodd Gordon gofiant (anorffenedig) gan ' Morien,' a ymddangosodd yn y *Cardiff Weekly Mail*, 31 Mai 1890

Ceir llawer o fanylion bywgraffyddol mewn erthygl ddienw (Dr. T. W. Thomas a'i hysgrifennodd) yn *Pebyll Seion. Hanes Ymdaith Cynnulleidfaoliaeth yn y Watford, Groes Wen, Tonyfelin, Rhydri, Caerffili, Glandwr Taf, Senghenydd, Llanbradach, Abertridwr. Gyda darluniau o leoedd nodedig a Phersonau Enwog* (Caerdydd 1904) (gol. Tawelfryn Thomas ac E. Bush), 1904

Ceir manylion bywgraffyddol ychwanegol gan H. Prosser mewn erthygl ('David Williams') yn *Wales, the National Magazine for the Welsh People*, 1912

Y mae llyfr E. V. Lucas, *Williams, David, Founder of the Royal Literary Fund* (Llundain 1920), 1920, yn delio â chysylltiad Williams â'r gymdeithas honno

Y mae ysgrifennwr yr erthygl bresennol yn awdur yr erthyglau canlynol: (a) 'The missions of David Williams and James Tilly Matthews to France (1793),' yn *The English historical review*, 1938, yn delio â chysylltiadau Williams a Ffrainc

(b) 'Franklin's Religious Ideas,' yn *American Historical Review*, 1938

a (c) 'Un document inédit sur la Gironde,' yn *Annales historiques de la Révolution Francaise*, 1938

Gweler hefyd H. G. Jones, 'Shôn Gwialan,' yn *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 1940, ac O. Llew Owain, 'Pwy ydoedd "Shôn Gwialan"?,' yn *Y Traethodydd*, 1947 - dwy erthygl yn delio ag ymosodiad David Williams ar esgob Bangor, a wnaethpwyd ar gymhelliad William Thomas, Llanidan

Y mae llawysgrifau David Williams yn Llyfrgell Rydd Caerdydd a'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth, eithr ni wyddys pa beth a ddigwyddodd i'r papurau y dywed ' Morien ' (a'r *Oxford Dictionary of National Biography*) eu bod ar y pryd ym meddiant Joseph Evans, The Bank, Caerffili

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: David Williams

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 73964724

Wikidata: Q3018998

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu